# Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) (2009)

2009 mccc 3

## Nodiadau Esboniadol

# Healthy Eating in Schools (Wales) Measure (2009)

2009 nawm 3

## Explanatory Notes

**£5.50**

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) (2009) (mccc 3) a gymeradwywyd gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor ar 15 Hydref 2009*

# MESUR BWYTA'N IACH MEWN YSGOLION (CYMRU) 2009

---

## NODIADAU ESBONIADOL

### RHAGYMADRODD

1. Mae'r nodiadau esboniadol hyn yn cyfeirio at Fesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 fel y cafodd ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor ar 15 Hydref 2009. Maen nhw wedi'u paratoi gan Jenny Randerson AC, cynigydd y Mesur, i helpu'r sawl sy'n darllen y Mesur. Dylai'r Nodiadau Esboniadol hyn gael eu darllen ar y cyd â'r Mesur ond dydyn nhw ddim yn rhan ohono.

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

**Adran 1: Hybu disgyblion mewn ysgolion a gynhelir i fwyta ac yfed yn iach**

2. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol ac ar gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir i gymryd camau i hybu bwyta ac yfed yn iach. Wrth gyflawni'r ddyletswydd honno, mae'n rhaid iddyn nhw roi sylw i unrhyw ganllawiau a fydd yn cael eu dyroddi gan Weinidogion Cymru o ran beth yw bwyta ac yfed yn iach; pa gamau a fyddai'n briodol a sut y dylai egwyddorion datblygu cynaliadwy gael eu cymhwyso at fwyta ac yfed yn iach.

**Adran 2: Adroddiadau llywodraethwyr**

3. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu gynnwys gwybodaeth yn ei adroddiad blynyddol am y camau sydd wedi'u cymryd i annog disgyblion yr ysgol i fwyta ac yfed yn iach.

**Adran 3: Swyddogaethau'r Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

4. Mae adran 20(1) o Ddeddf Addysg 2005 yn nodi'r materion y mae'r Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru o dan ddyletswydd i roi gwybodaeth amdanyn nhw yn gyson i Weinidogion Cymru. Mae'r adran hon yn ychwanegu paragraff (g) newydd i'r is-adran honno er mwyn ei gwneud yn ofynnol hefyd i'r Prif Arolygydd gyflwyno adroddiadau ar y camau sydd wedi'u cymryd i hybu bwyta ac yfed yn iach.

*These notes refer to the Healthy Eating in Schools (Wales) Measure (2009) (nawm 3) which received approval by Her Majesty in Council on 15 October 2009*

# HEALTHY EATING IN SCHOOLS (WALES) MEASURE 2009

---

## EXPLANATORY NOTES

### INTRODUCTION

1. These explanatory notes are for the Healthy Eating in Schools (Wales) Measure 2009 as passed by the National Assembly for Wales and approved by Her Majesty in Council on 15 October 2009. They have been prepared by Jenny Randerson AM, the proposer of the Measure, in order to assist the reader of the Measure. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Measure but do not form part of it.

### COMMENTARY ON SECTIONS

#### Section 1: Promoting healthy eating and drinking by pupils in maintained schools

2. This section imposes a duty on local authorities and governing bodies of maintained schools to take action to promote healthy eating and drinking. In fulfilling that duty, they have to have regard to any guidance issued by Welsh Ministers in relation to what constitutes healthy eating and drinking; what action would be appropriate and how the principles of sustainable development should apply to healthy eating and drinking.

#### Section 2: Governors' reports

3. This section requires the governing body to include in their annual report information about the action taken to promote healthy eating and drinking by pupils of the school.

#### Section 3: Functions of the Chief Inspector of Education and Training in Wales

4. Section 20(1) of the Education Act 2005 sets out the matters upon which the Chief Inspector of Education and Training in Wales has a duty to keep Welsh Ministers informed. This section adds a new paragraph (g) to that sub-section so as to require the Chief Inspector also to report on the action taken to promote healthy eating and drinking.

**Adran 4: Gofynion ynglŷn â bwyd a diod a ddarperir ar fangre ysgol etc.**

5. Mae'r adran hon wedi'i seilio ar yr adran 114A gyfredol yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, sy'n cael ei chynnwys yn y Mesur fel bod yr holl ddeddfwriaeth berthnasol ynghylch safonau maethiad yn yr ysgolion yn cael ei thrafod mewn un darn o ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'n parhau i roi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ragnodi gofynion a fydd yn gymwys i'r bwyd a'r ddiod sy'n cael eu darparu ar fangre unrhyw ysgol a gynhelir. Caniateir hefyd i reoliadau gael eu gwneud mewn perthynas â bwyd a diod sy'n cael eu darparu gan yr awdurdodau lleol neu'r corff llywodraethu mewn man arall ar gyfer disgyblion sydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol. Serch hynny, fydd y gofynion ddim yn gymwys i ginio pecyn.

6. Mae'r adran hefyd yn ychwanegu, yn is-adran (2), bŵer i bennu uchafsymiau braster, braster dirlawn, halen a siwgr yn y bwyd a'r ddiod sy'n cael eu darparu ar gyfer disgyblion.

7. Mae hefyd yn cynnwys gofyniad bod rhaid i Weinidogion Cymru ganfod barn disgyblion ac eraill cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon.

**Adran 5: Dŵr yfed mewn ysgolion**

8. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol i sicrhau bod cyflenwad dŵr yfed ar gael yn rhad ac am ddim, ac i roi sylw unrhyw ganllawiau a fydd yn cael eu dyroddi gan Weinidogion Cymru.

**Adran 6: Hybu prydau mewn ysgolion a sefydliadau addysgol eraill**

9. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol hybu argaeledd prydau ysgol a llaeth yn gyffredinol, a chinio ysgol a llaeth am ddim yn benodol, a hybu'r niferoedd sy'n eu cymryd.

**Adran 7: Diogelu manylion adnabod disgyblion sy'n cael cinio ysgol am ddim**

10. Er mwyn rhoi hwb i'r niferoedd sy'n cymryd prydau ysgol iach, mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu i ddiogelu manylion adnabod y rhai sydd â hawl i gael cinio ysgol neu laeth am ddim, ac i wneud hynny yn unol ag unrhyw ganllawiau a fydd yn cael eu dyroddi gan Weinidogion Cymru. Mae hyn yn cael ei wneud drwy osod adran 512ZC newydd yn Neddf Addysg 1996 yn union ar ôl yr adran yn y Ddeddf honno sy'n ymdrin â'r hawl i gael cinio ysgol am ddim.

**Adran 8: Diwygiadau canlyniadol**

11. Gan fod adran 7 o'r Mesur hwn yn disodli adran 114A o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 o ran Cymru, mae'r adran hon yn gwneud newidiadau o ganlyniad i hynny yn adran 114A i'w gwneud yn glir nad yw'r adran honno'n gymwys i Gymru.

**Section 4: Requirements for food and drink provided on school premises etc.**

5. This section is based on the current section 114A of the School Standards and Framework Act 1998, which is brought into the Measure so that all the relevant legislation about nutritional standards in schools is dealt with in one piece of primary legislation. It continues to empower Welsh Ministers to make regulations to prescribe requirements applicable to food and drink provided on the premises of any maintained school. Regulations may also be made in relation to food and drink provided by the local authority or governing body elsewhere to pupils registered at the school. The requirements will not, however, apply to packed lunches.

6. It also adds, in subsection (2), a power to specify maximum levels of fat, saturated fat, salt and sugar in food and drink provided for pupils.

7. It also includes a requirement for Welsh Ministers to ascertain the views of pupils and others before making regulations under this section.

**Section 5: Drinking Water in Schools**

8. This section imposes a duty on local authorities to ensure that a supply of water is available free of charge, and to have regard to any guidance issued by Welsh Ministers

**Section 6: Promotion of meals in schools and other educational establishments**

9. This section requires local authorities to promote the availability and consumption of school meals and milk in general, and free school lunches and milk in particular.

**Section 7: Protection of the identity of pupils receiving free school lunches or milk**

10. In order to encourage the take-up of healthy school meals, this section imposes a duty on local authorities and governing bodies to protect the identity of those entitled to free school lunches or milk, and to do so in accordance with any guidance issued by Welsh Ministers. This is done by inserting a new section 512ZC into the Education Act 1996 immediately after the section of that Act that deals with entitlement to free school lunches.

**Section 8: Consequential amendments**

11. As section 7 of this Measure replaces section 114A of the School Standards and Framework Act 1998 in relation to Wales, this section makes consequential changes to section 114A to make it clear that it does not apply to Wales.

**Adran 9: Arbediad**

12. Mae'r adran hon yn sicrhau bod effaith unrhyw reoliadau sydd wedi'u gwneud o dan adran 114A cyn i'r Mesur hwn ddod i rym yn parhau, fel na fydd yna ddiffyg rheoliadau yn ystod y cyfnod cyn i reoliadau gael eu gwneud o dan y pwerau sydd wedi'u cynnwys yn y Mesur hwn.

**Adran 10: Gorchmynion a rheoliadau**

13. Mae'r adran hon yn cynnwys y manylion arferol ynghylch pŵer Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth. Byddai hwnnw'n dod o dan y weithdrefn negyddol yn y Cynulliad Cenedlaethol, gydag un eithriad. Yn unol â'r arfer cyffredin, fyddai dim gweithdrefn mewn perthynas â gorchmynion cychwyn a fyddai'n cael eu gwneud o dan adran 12(3).

**Adran 11: Dehongli**

14. Mae'r adran hon yn diffinio nifer o dermau sy'n cael eu defnyddio yn y Mesur, ond does dim darpariaethau o sylwedd ynddi.

**Adran 16: Enw byr a chychwyn**

15. Mae'r adran hon yn cyflwyno'r enw y bydd y Mesur yn cael ei adnabod wrtho yn gyffredinol. Mae hefyd yn darparu ar gyfer dod â'r Mesur i rym. Mae'r adran hon yn dod i rym ar y dyddiad y mae'n cael ei chymeradwyo gan Ei Mawrhydi yn un o gyfarfodydd y Cyfrin Gyngor, a byddai gweddill y Mesur yn dod i rym yn unol â Gorchymyn Cychwyn a fyddai'n cael ei wneud gan Weinidogion Cymru.

16. Mae'r adran hefyd yn darparu bod y Mesur i gael ei gynnwys yn y rhestr o Ddeddfau Addysg sydd wedi'i nodi yn adran 578 o Ddeddf Addysg 1996. Bydd hynny'n galluogi Gweinidogion Cymru i arfer pwerau diofyn os bydd awdurdodau lleol neu gyrff llywodraethu'n torri darpariaethau'r Mesur hwn.

**Section 9: Saving**

12. This section gives continuing effect to any regulations made under section 114A before this Measure comes into force, so that there is no lack of regulations during the period before regulations are made under the powers contained in this Measure.

**Section 10: Orders and regulations**

13. This section contains the usual details about the power of Welsh Ministers to make subordinate legislation. This would be subject to the negative procedure in the National Assembly, with one exception. In accordance with normal practice, there would be no procedure in relation to commencement orders made under section 12(3).

**Section 11: Interpretation**

14. This section defines a number of terms used in the Measure, but contains no substantive provisions.

**Section 16: Short title and commencement**

15. This section introduces the title by which the Measure will generally be known. It also provides for the coming into force of the Measure. This section comes into force on the date that it is approved by Her Majesty at a meeting of the Privy Council, and the remainder of the Measure would come into force in accordance with a Commencement Order made by Welsh Ministers.

16. The section also provides that the Measure is to be included in the list of Education Acts set out in section 578 of the Education Act 1996. This will enable Welsh Ministers to exercise default powers if local authorities or governing bodies are in breach of the provisions of this Measure.

**COFNOD TRAFODION CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

Mae'r tabl canlynol yn nodi dyddiadau pob Cyfnod wrth i'r Mesur fynd drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am basio'r Mesur ar gael ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

**http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation.htm**

| | |
|---|---|
| Cyflwyno'r Mesur | 14 Mawrth 2008 |
| Cyfnod 1 – Y Pwyllgor yn ystyried yr egwyddorion cyffredinol | 20 Mai 2008<br>3 Mehefin 2008<br>10 Mehefin 2008<br>17 Mehefin 2008<br>24 Mehefin 2008<br>1 Gorffennaf 2008 |
| Cyfnod 1 – Trafodaeth yn y cyfarfod llawn ar yr egwyddorion cyffredinol | 15 Hydref 2008 |
| Cyfnod 2 – Y Pwyllgor yn ystyried gwelliannau | 10 Mehefin 2009 |
| Cyfnod 3 – Y cyfarfod llawn yn ystyried gwelliannau | 8 Gorffennaf 2009 |
| Cyfnod 4 – Pasio'r Mesur yn y cyfarfod llawn | 8 Gorffennaf 2009 |
| Derbyn Cymeradwyaeth Brenhinol yn y Cyfrin Gyngor | 15 Hydref 2009 |

© Hawlfraint y Goron 2009

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

**RECORD OF PROCEEDINGS IN THE NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

The following table sets out the dates for each stage of the Measure's passage through the National Assembly for Wales. The Record of Proceedings and further information on the passage of this Measure can be found on the National Assembly for Wales' website at:

**http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-legislation.htm**

| | |
|---|---|
| Measure Introduced | 14 March 2008 |
| Stage 1 – Committee consideration of general principles | 20 May 2008<br>3 June 2008<br>10 June 2008<br>17 June 2008<br>24 June 2008<br>1 July 2008 |
| Stage 1 - Debate in plenary on general principles | 15 October 2008 |
| Stage 2 – Committee consideration of amendments | 10 June 2009 |
| Stage 3 – Plenary consideration of amendments | 8 July 2009 |
| Stage 4 – passing of the Measure in plenary | 8 July 2009 |
| Royal Approval in Council | 15 October 2009 |

© Crown copyright 2009
Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**Cyhoeddwyd gan (The Stationery Office)**
ac mae ar gael oddi wrth:

**Online**
**www.tsoshop.co.uk**

**Mail, Telephone, Fax & E-mail**
TSO
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
Archebion / ymholiadau ffôn 0870 600 5522
Archebion ffacs 0870 600 5533
book.orders@theso.co.uk
http:/www.ukstate.com

**Siopau Llyfrau The Stationery Office**
16 Arthur Street, Belfast BTI 4GD
028 9023 8451 Ffacs 028 9023 5401

**The Parliamentary Bookshop**
12 Bridge Street, Parliament Square,
Llundain SW1A 2JX
Archebion dros y ffôn/ Ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890
Archebion ffacs: 020 7219 3866
E-bost: bookshop@parliament.uk
Gwefan: http://www.bookshop.parliament.uk

**TSO @ Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill**

**Published by TSO (The Stationery Office)**
and available from:

**Online**
**www.tsoshop.co.uk**

**Mail, Telephone, Fax & E-mail**
TSO
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
General enquiries: 0870 600 5522
Order through the Parliamentary Hotline *Lo-call* 0845 7 023474
Fax orders: 0870 600 5533
E-mail: customer.service@tso.co.uk
Textphone: 0870 240 3701

**TSO Shops**
16 Arthur Street, Belfast BTI 4GD
028 9023 8451 Fax 028 9023 5401

**The Parliamentary Bookshop**
12 Bridge Street, Parliament Square,
London SW1A 2JX
Telephone orders/General enquiries: 020 7219 3890
Fax orders: 020 7219 3866
Email: bookshop@parliament.uk
Internet: http://www.bookshop.parliament.uk

**TSO @ Blackwell and other Accredited Agents**

ISBN 978-0-348-10511-7

9 780348 105117